OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 2757 (Cy. 279)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Amrywiol Ffyrdd yn Llanfair-ym-Muallt, Powys) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Hydref 2014* |
| *Yn dod i rym* | *20 Hydref 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Hydref 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Amrywiol Ffyrdd yn Llanfair-ym-Muallt, Powys) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2014.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 06:00 o'r gloch ar 20 Hydref 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o'r gefnffordd yn Llanfair-ym-Muallt, Sir Powys a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ymylon y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen 3.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd droi i'r chwith o gerbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

**Atal dros dro**

**7.** Mae darpariaethau erthyglau 3 a 4 o Orchymyn Cefnffordd (yr A483) (Llanfair-ym-Muallt, Powys) (Traffig Unffordd) 1983**(3)** drwy hyn wedi eu hatal dros dro mewn cysylltiad â'r darnau o'r gefnffordd a elwir yn Stryd yr Eglwys a Stryd y Gorllewin yn ystod y cyfnodau hynny pan fydd y gwaharddiad a bennir yn erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn weithredol.

**8.** Mae darpariaethau erthyglau 5 a 6 o Orchymyn Cefnffyrdd (yr A470 / yr A483) (Llanfair-ym-Muallt, Powys) (Rheoleiddio Traffig) 1985**(4)** a darpariaethau erthygl 3 o Orchymyn Cefnffordd yr A483 (Llanfair-ym-Muallt, Powys) (Gwahardd Aros) 2003**(5)** drwy hyn wedi eu hatal dros dro mewn cysylltiad â'r darn o'r gefnffordd o'r enw Stryd y Gorllewin yn ystod y cyfnodau hynny pan fydd y gwaharddiad a bennir yn erthygl 5 o'r Gorchymyn hwn yn weithredol.

**Cymhwyso**

**9.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 13 Hydref 2014

***R Morgan***
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; Amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 1983/1460
**(4)** O.S. 1985/539
**(5)** O.S. 2003/1648 (Cy.178)

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd a elwir yn Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 3 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd y Strand, hyd at bwynt 3 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd y Farchnad.

### ATODLEN 2
### Traffig Un Ffordd Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd a elwir yn Ffordd y Garth sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd yr Eglwys hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r A483 Ffordd y Parc. Cyfeiriad llif y traffig fydd o'r dwyrain i'r gorllewin.

### ATODLEN 3
### Gwahardd Dros Dro Aros ar Unrhyw Adeg

Y darn o'r gefnffordd a elwir yn Ffordd y Gorllewin sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd y Farchnad hyd at ei chyffordd â Stryd yr Eglwys.

Y darn o'r gefnffordd a elwir yn Ffordd y Parc sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd y Garth, hyd at ei chyffordd â Stryd yr Eglwys.

Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd a elwir yn Ffordd y Garth sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd yr Ysbyty i gyfeiriad y gorllewin am 30 o fetrau.

Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd a elwir yn Ffordd y Garth sy’n ymestyn o’r pwynt y mae lôn draffig tua’r gorllewin Ffordd y Parc yn ymuno â chylchfan Ffordd y Garth i gyfeiriad y dwyrain am 20 o fetrau.

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd a elwir yn Ffordd y Garth sy’n ymestyn o bwynt 19.6 o fetrau o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd yr Ysbyty i gyfeiriad y gorllewin am 40 o fetrau.

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd a elwir yn Ffordd y Garth sy’n ymestyn o ben gorllewinol mynediad dwyreiniol y cae criced ar ochr ddeheuol y gylchfan i gyfeiriad y dwyrain am 35 o fetrau.

**ATODLEN 4**
**Gwahardd Troi i’r Chwith Dros Dro**

O gerbytffordd orllewinol y gefnffordd a elwir yn Ffordd y Parc i gerbytffordd tua’r dwyrain yr A483 Ffordd y Garth.